



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
Heol Llansteffan
Heol Tre-loan
Sir Gaerfyrddin
SA31 3NL**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2014

Cyd-destun

Ysgol gyfun uwchradd ddwyieithog 11 i 18 oed yn Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth. Mae 1,531 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 278 yn y chweched dosbarth. Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd 1,432 ar y gofrestr. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar gyrion Caerfyrddin. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o Gaerfyrddin a'r ardal gyfagos.

Mae gan tuag 16% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7%, i ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae tua 6% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan tuag 8% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig o gymharu â 2.5% ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan tua 23% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.2%. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth ag adnoddau yr awdurdod lleol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol a difrifol, anhwylderau ar y sbectwm awtistig, namau ar y clyw a dyslecsia.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd Gwyn Prydeinig. Mae tua 2% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 7% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae darpariaeth ddwyieithog yn gyfyngedig. Caiff dau ddsbarth ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9 eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn tua hanner eu pynciau ond, yng nghyfnod allweddol 4, ac eithrio Cymraeg iaith gyntaf, nid oes unrhyw bynciau'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd yr ysgol ar ddau safle cyfagos. Disodlwyd y rhain gan adeilad ysgol newydd a agorwyd ar yr un safle yn 2008.

Bu'r pennaeth yn y swydd er Medi 2011. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a phedwar pennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yn 2013-2014 yw £5,128 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,238 a'r lleiafswm yw £4,233. Mae Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yn y 4ydd safle o'r 14 ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin o ran y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae gwaith yr ysgol yn cynnwys nodweddion da:

- mae ethos cynhwysol;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu;
- mewn gwersi a thros amser, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn eu dysgu;
- mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ac yn gosod amcanion clir i ddisgyblion sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol;
- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu medrau, yn enwedig medrau llythrennedd; ac
- mae disgyblion yng nghanolfan adnoddau Canolfan Elfed ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn cael gofal da ac yn gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu eu medrau bywyd.

Fodd bynnag, bernir bod yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf ac, ar hyn o bryd, maent islaw'r disgwyliadau;
- mae bechgyn yn gwneud yn sylweddol waeth mewn Saesneg;
- mae anghysondeb yn ansawdd ac effaith asesu;
- nid yw tua hanner yr addysgu yn rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion dysgu unigol; ac
- mae presenoldeb islaw'r disgwyliadau.

Rhagolygon gwella

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn cynnwys nodweddion da:

- mae ymdeimlad clir o gyfeiriad a ffocws cyson ar wella addysgu a dysgu;
- gwnaed cynnydd o ran datblygu diwylliant o hunanarfarnu wedi ei seilio ar dystiolaeth;
- bu cymorth a her effeithiol ar gyfer tanberfformio.

Fodd bynnag, bernir bod y rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae effaith rheolwyr canol yn amrywio ac mae anghysondeb o ran pa mor effeithiol y cânt eu dwyn i gyfrif; ac
- mae arfarniad annigonol o ba mor dda y mae addysgu yn bodloni anghenion dysgu unigol.

Argymhellion

- A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig bechgyn, a chynyddu nifer y disgyblion sy'n ennill cymwysterau Cymraeg iaith gyntaf
- A2 Gwella presenoldeb
- A3 Gwella ansawdd addysgu fel ei fod yn bodloni anghenion pob disgybl
- A4 Gwella ansawdd ac effaith asesu
- A5 Gwella ansawdd rheolwyr canol a'u dwyn i gyfrif am safonau yn gyson
- A6 Gwella cysondeb y cysylltiad rhwng hunanarfarnu a chynlluniau gwella

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd tuedd o welliant rhwng 2009 a 2011. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwellodd perfformiad ar gyfradd well na chyfartaledd y teulu. Yn 2012, disgynnodd perfformiad ymhell islaw cyfartaledd y teulu ym mhob dangosydd ac islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, gwellodd perfformiad yn 2013 ac, erbyn hyn, mae ychydig islaw'r disgwyliadau.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi rhoi'r ysgol yn hanner uchaf yr ysgolion tebyg ar sail lefelau'r hawl i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer cynnydd a wnaed gan ddisgyblion yn y dangosydd sy'n cynnwys ystod o gymwysterau, gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd ar i fyny mewn perfformiad dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae perfformiad uwchlaw'r disgwyl ar sail cyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Fodd bynnag, mae perfformiad islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg o hyd yn y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi rhoi'r ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau'r hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Gwellodd perfformiad yn y chweched dosbarth hyd 2011, ond yna bu gostyngiad sylweddol yn 2012. Yn 2013, gwellodd perfformiad yn y trothwy lefel 3 (A*-E mewn dwy Safon Uwch neu gymhwyster cyfwerth), ac mae'n debyg i gyfartaledd ei theulu o ysgolion. Bu sgôr pwyntiau cyfartalog disgyblion islaw cyfartaledd y teulu yn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae nifer y disgyblion sy'n gadael heb gymhwyster yn debyg i gyfartaledd ei theulu o ysgolion a'r cyfartaledd cenedlaethol. Dros y ddwy flynedd diwethaf, fe wnaeth bron pob disgybl ennill cymwysterau ac aros mewn addysg neu hyfforddiant.

Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4 mae'r gwahaniaeth yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol yn y cymwysterau sy'n cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. Yn benodol, nid yw bechgyn yn gwneud crystal â merched mewn Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad y disgyblion hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, roedd y bwlch yn llai na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae mwyafrif y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni ystod ddefnyddiol o gymwysterau.

Mewn gwersi a thros amser, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn galw gwybodaeth i gof yn dda ac yn cymhwyso hyn yn dda i ddysgu newydd. Mae'r disgyblion hyn yn mynd i'r afael â heriau dysgu yn frwdfrydig ac mae ganddynt fedrau datrys problemau effeithiol. Maent yn arfarnu ac yn gwella eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol ac ni all ychydig ohonynt gymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd newydd.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol o ran datblygu eu medrau llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n dda, ac mae mwyafrif ohonynt yn awyddus i ymateb i eraill a chyfrannu at drafodaethau dosbarth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn glir ac yn mynegi eu hunain yn dda. O gael eu holi, mae llawer ohonynt yn ateb cwestiynau'n hyderus ac yn defnyddio geirfa gyffredinol a geirfa sy'n benodol i bwnc yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, ac maent ganddynt strategaethau defnyddiol i ddethol a threfnu gwybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ac mewn ystod o arddulliau sy'n briodol i'r cyd-destun. Maent yn defnyddio ystod addas o eirfa gyffredinol a geirfa sy'n benodol i bwnc. Mae'r rhai mwy galluogi yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio iaith a mynegiant soffistigedig. Caiff y mwyafrif o waith ysgrifenedig ei gyflwyno'n dda ac mae disgyblion yn cymryd gofal â'u sillafu, atalnodi a gramadeg. Gall llawer o ddisgyblion gywiro gwallau yn eu hysgrifennu a gallant wella eu gwaith eu hunain. Mae gwaith lleiafrif o ddisgyblion yn anniben ac nid yw ychydig ohonynt yn cywiro eu gwaith, hyd yn oed pan fydd athrawon yn amlygu gwallau.

Mae gan llawer o ddisgyblion fedrau rhifedd cadarn. Maent yn dewis dulliau priodol ar gyfer cyfrifo ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn llai sicr wrth drin data. Nid oes gan llawer ohonynt ddealltwriaeth gadarn o'r mathau priodol o graffiau a siartiau ar gyfer cyflwyno mathau gwahanol o ddata.

Mae perfformiad disgyblion mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf wedi dirywio er 2011. Yn 2013, enillodd llawer o'r rhai a safodd yr arholiad radd C o leiaf, ac mae hyn ychydig yn is yn unig na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o'r disgyblion hynny sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am gyfran o gyfnod allweddol 3 sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 4. Yn 2013, safodd bron pob un o'r disgyblion TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith ac enillodd llawer ohonynt radd C, o leiaf. Mae safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y teulu ac mae perfformiad wedi rhoi'r ysgol yn hanner uchaf yr ysgolion ar sail lefelau'r hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Mae'r ychydig o ddisgyblion sy'n astudio tua hanner eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gwersi.

Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r mwyafrif ohonynt o'r farn bod yr ysgol yn mynd i'r afael â bwlio yn effeithiol. Mae llawer

ohonynt yn deall sut y gallant gadw eu hunain yn iach ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn ymgymryd â thasgau'n benderfynol, yn canolbwyntio ar eu dysgu ac yn ymddwyn yn dda. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn camymddwyn mewn gwersi yn rheolaidd. Mae hyn yn amharu ar ddysgu disgyblion eraill.

Bu gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodol ac ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol wedi gwella. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau, mae cyfraddau presenoldeb wedi rhoi'r ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar gyfer y pum mlynedd diwethaf ac islaw'r lefelau disgwylidig. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfrannu at tua 30% o'r absenoldebau cyffredinol yn yr ysgol. Yn 2013, roedd y gyfradd absenoldeb uchaf ymhlith disgyblion Blwyddyn 11. Roedd absenoldeb ym Mlwyddyn 11 tuag un pwynt canran yn uwch na chyfartaledd yr ysgol. Mae presenoldeb disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim saith pwynt canran yn is na'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae data'r ysgol ar gyfer eleni yn awgrymu bod y bwlch hwn yn lleihau.

Bu cyngor yr ysgol yn effeithiol o ran gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, o ganlyniad i'w gyfraniad at weithgor, sefydlodd yr ysgol gyfleuster galw heibio ar gyfer mentora cyfoedion. Mae disgyblion wedi cael eu cynnwys yn ddefnyddiol mewn adolygiadau adrannol hefyd. Maent yn rhoi eu barn ar bynciau a sut i wella profiadau dysgu disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol sy'n amrywio o gôr yr ysgol, y gerddorfa a bandiau roc i weithgareddau yn ymwneud â chwaraeon.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau byw defnyddiol ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu cam nesaf mewn dysgu neu gyflogaeth.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol, yn adeiladu ar ddysgu blaenorol, ac yn sicrhau dilyniant a pharhad priodol mewn dysgu trwy'r cyfnodau allweddol. Mae'r ysgol yn cynnig detholiad priodol o bynciau traddodiadol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, ynghyd ag ystod o brofiadau dysgu ychwanegol defnyddiol trwy raglen Bagloriaeth Cymru. Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad effeithiol i ddisgyblion wrth iddynt ddewis cyrsiau a gyrfaoedd. Mae cydweithredu effeithiol gydag ysgol gyfagos a'r coleg lleol wedi ehangu'r dewis i ychydig iawn o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae darpariaeth ychwanegol ddiweddar ar gyfer cyflwyno Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwneud gwelliant mân ond

addas i safonau. Fodd bynnag, nid yw ehangu'r cwricwlwm yn ddiweddar wedi cael effaith lawn ar wella deilliannau hyd yn hyn.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran rhoi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar waith, ac mae cynlluniau gweithredu addas i gynorthwyo i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae ffocws clir ar wella llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3, er nad yw rhifedd wedi ei ddatblygu cystal. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth addas i gynorthwyo disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sydd â medrau sylfaenol gwan. Caiff llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 gyfleoedd gwerthfawr i ennill cymwysterau medrau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn cwrs TGAU Cymraeg llawn yng nghyfnod allweddol 4. Caiff ychydig yn llai na chwarter y disgyblion gyfleoedd a chymorth addas i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn tua hanner eu pynciau yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, ac eithrio Cymraeg iaith gyntaf, ni chaiff unrhyw bynciau eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio Cymraeg bob dydd yn rheolaidd mewn gwersi. Mae'r ysgol yn darparu profiadau buddiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru ar draws pob pwnc, mewn gwasanaethau a thrwy weithgareddau allgyrsiol, fel yr Eisteddfod flynyddol.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol trwy ystod eang o bynciau, addysg bersonol a chymdeithasol a gweithgareddau allgyrsiol.

Addysgu: Digonol

Mae bron pob un o'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn ac yn fodolau iaith effeithiol i'w disgyblion. Mae perthynas waith fuddiol yn arwain at amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y rhan fwyaf o wersi. Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol, yn gosod amcanion clir ac mae gweithgareddau addysgu yn adeiladu ar ddysgu blaenorol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn gyson.

Mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn rhannu amser y wers yn briodol rhwng gweithgareddau ac mae hyn yn arafu rhediad y dysgu. Mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn bodloni anghenion dysgu unigol disgyblion yn ddigonol. Mewn rhai gwersi, nid yw'r tasgau sy'n cael eu gosod yn ddigon heriol i'r athrawon neu caiff yr addysgu ei arwain gormod gan athrawon.

Mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu yn effeithiol, yn enwedig yn y ganolfan adnoddau dysgu arbenigol, Canolfan Elfed, ac yn y canolfannau meithrin a chymorth. Mewn gwersi prif ffrwd, mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth priodol i ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn asesu ac yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dilyn dulliau cyffredin wrth farcio gwaith disgyblion. Mae mwyafrif ohonynt yn rhoi cyngor defnyddiol ar sut i wella gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio yn amrywio gormod, ac mae lleiafrif o'r sylwadau yn gefnogol yn gyffredinol, yn hytrach na'n rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella eu

gwaith. Dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n ymateb i sylwadau eu hathrawon trwy wella eu gwaith gan ddefnyddio'r cyngor sy'n cael ei roi.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae ychydig ohonynt yn darparu cyfleoedd defnyddiol iawn ar gyfer asesu cyfoedion neu hunanasesu, er enghraifft mewn addysg gorfforol a cherddoriaeth. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, ni all disgyblion arfarnu eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill yn effeithiol oherwydd bod y strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn amhriodol, neu oherwydd y caiff cyfleoedd eu methu.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu system effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Caiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd a cheir trafodaethau defnyddiol am gynnydd rhwng athrawon cofrestru a disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod eu graddau targed unigol ac yn deall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i'w cyflawni. Mae llawer o athrawon yn defnyddio'r system hon yn dda i adnabod disgyblion sy'n tangyflawni. Mae'r ysgol yn darparu sawl strategaeth cymorth i'r disgyblion hyn, gan gynnwys sesiynau dal i fyny ar gyfer pynciau penodol, sy'n helpu disgyblion i gyflawni'n dda. Arweiniodd y system olrhain a chymorth at safonau uwch yn 2013.

Mae adroddiadau'n rhoi gwybodaeth drylwyr i rieni a disgyblion am berfformiad presennol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys targedau clir ar gyfer gwella ac mae llawer ohonynt yn rhoi adborth ar sut i'w cyflawni.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Dywed llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu haddysgu yn fod yn iach ac mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod digon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus trwy wasanaethau, addysg bersonol a chymdeithasol ac ystod o weithgareddau allgyrsiol buddiol.

Cyflwynwyd polisi defnyddiol, diwygiedig ar ymddygiad a system olrhain ymddygiad electronig. Mae'r ysgol yn dechrau dadansoddi data ymddygiad a rhoi strategaethau ar waith i leihau digwyddiadau ymddygiadol, er enghraifft trwy roi offer hanfodol i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio'r system yn gyson ac mae pryderon parhaus ynghylch ymddygiad ychydig o ddisgyblion a gallu'r ysgol i'w cynorthwyo'n effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi penodi swyddogion cymorth bugeiliol a chynorthwywyr addysgu sydd wedi rhoi nifer o fentrau newydd ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni i gynorthwyo disgyblion i reoli dicter, ystafell cymorth bugeiliol sy'n cael ei defnyddio fel dewis arall i wahardd disgyblion a chynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y rhain.

Mae Canolfan Elfed yn ganolfan adnoddau dysgu i ddisgyblion ag ystod o anghenion addysgol arbennig cymhleth. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn darparu cyfleoedd dysgu priodol ar eu cyfer. Yn ddiweddar iawn, mae'r ganolfan adnoddau wedi cyflwyno system olrhain newydd i fonitro'r cynnydd y mae ei disgyblion yn ei wneud.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion Canolfan Elfed yn cael gwersi yn y brif ffrwd. Lle y bo'n briodol, caiff disgyblion eu haddysgu mewn grwpiau arwahanol, neu eu cynnwys yn llawn mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae disgyblion yn datblygu'n dda yn gymdeithasol ac yn academaidd.

Mae disgyblion yn y brif ffrwd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu manteisio ar ystod o gymorth addas. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ystod o asiantaethau allanol i sicrhau y gall disgyblion fanteisio ar ystod o wasanaethau arbenigol i fodloni eu hanghenion. Caiff disgyblion a rhieni eu cynnwys mewn adolygu cynnydd yn flynyddol, o leiaf, ac maent yn pennu targedu mewn cynlluniau addysg unigol. Mae pob un o'r athrawon yn ymwybodol o anghenion disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu hystyried ddigon wrth gynllunio gwersi ac addasu gweithgareddau i fodloni anghenion unigol.

Mae'r adran anghenion dysgu ychwanegol yn nodi cymorth sy'n cael ei ddyrannu i ddisgyblion gan ddefnyddio map darpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau yn amserol ac wedi eu trefnu'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r map darpariaeth yn dangos effaith rhaglenni cymorth ar safonau disgyblion. Nid yw ychydig iawn o'r rhaglenni cymorth ac ymyrraeth yn cael eu cynllunio a'u gweithredu'n dda. Er enghraifft, cynhwyswyd grŵp bach o ddisgyblion mewn grŵp ymyrraeth a ddechreuodd ar ddechrau'r arolygiad. Ei ffocws oedd datblygu medrau cymdeithasol, llythrennedd a rhifedd disgyblion. Roedd natur y ddarpariaeth hon yn anaddas. Nid oes unrhyw feini prawf llwyddiant clir nac unrhyw raglen waith benodol, ac nid oedd yr ystafell a ddefnyddiwyd yn addas i'r diben.

Mae trefniadau'n ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae disgyblion yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd academaidd ac allgyrsiol, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu. Mae cynnwys a derbyn disgyblion sydd wedi eu lleoli yn y ganolfan adnoddau arbenigol, Canolfan Elfed, yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn dysgu am ddiwylliannau ac arferion eraill trwy weithgareddau dosbarth a gwasanaethau. Caiff y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith yn cael cyfleoedd buddiol i ennill cymwysterau yn eu mamiaith.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i atal a chofnodi ymddygiad gormesol. Bu cyngor yr ysgol yn ddylanwadol o ran cyflwyno gweithgareddau i atal bwlio ac annog disgyblion i roi gwybod os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Mae adnoddau dysgu o lefelau priodol ar draws pob pwnc. Mae'r tu allan yn ddeniadol ac mae arddangosiadau ar y waliau mewn llawer o ardaloedd yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu. Mae'r safle a'r adeiladau yn ddiogel.

Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n bodloni anghenion disgyblion yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Ers ymgymryd â'r swydd ym Medi 2011, mae'r pennaeth wedi darparu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Ar sail dealltwriaeth drylwyr o gryfderau a gwendidau'r ysgol, mae wedi sefydlu ymdeimlad clir o flaenoriaethau a chyfeiriad. Mae wedi cyfathrebu ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn glir i ddisgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Ailddiffiniwyd rolau'r uwch dîm arweinyddiaeth ac, erbyn hyn, mae'n canolbwyntio'n fwy systematig ar godi safonau. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas tuag at fodloni ei nodau strategol. Fodd bynnag, yn y dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar godi safonau hyd yn hyn.

Mae'r strwythur arweinyddiaeth newydd wedi dod â llinellau atebolrwydd clir ac mae cydbwysedd priodol rhwng cyfrifoldebau'r staff uwch. O fewn y strwythur hwn, mae disgwyliadau uchel. Mae cyfarfodydd tîm yn canolbwyntio'n briodol ar addysgu, dysgu a pherfformiad disgyblion. Mae'r ysgol wedi rhoi nifer o strategaethau defnyddiol ar waith i gryfhau arweinyddiaeth ganol. Fodd bynnag, mae effaith arweinwyr canol yn amrywio ac mae anghysondeb o ran pa mor effeithiol y cânt eu dwyn i gyfrif.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae nodau ac amcanion yr ysgol yn glir ac yn rhoi pwys addas ar les a chynnydd disgyblion. Mae ffocws clir ar addysgu a dysgu yn meithrin gallu'r staff i weithio'n effeithiol fel tîm. Dim ond megis dechrau ei ddatblygu y mae hyn.

Diwygiwyd trefniadau rheoli perfformiad yn ddiweddar. Mae'r rhain, ynghyd â chyfres gynhwysfawr o adolygiadau pwnc, wedi darparu fframwaith i fynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael effaith sylweddol ar safonau hyd yn hyn, ac mae ychydig iawn o feysydd lle ceir tanberfformiad o hyd.

Mae llywodraethwyr yn cael gwybodaeth reolaidd am berfformiad yr ysgol. Maent yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad a theyrngarwch i'r ysgol. Mae pob un o'r llywodraethwyr wedi eu cysylltu â phrif nodau'r ysgol trwy gyfres briodol o is-bwyllgorau a gweithgorau. Mae llywodraethwyr yn ymwybodol o'r prif faterion strategol sy'n wynebu'r ysgol ac yn ymrwymedig i'w helpu i symud ymlaen. Fodd bynnag, ni ddatblygwyd eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn llawn hyd yn hyn, er mwyn herio a chynorthwyo'r ysgol yn effeithiol.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi gwneud cynnydd digonol o ran datblygu diwylliant o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws y rhan fwyaf o'r ysgol. Mae'r systemau a'r strwythurau yn cael eu deall yn glir ac yn rhoi dealltwriaeth gadarn i'r uwch dîm arweinyddiaeth o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, y caiff y rhan fwyaf ohonynt eu hadlewyrchu'n deg yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol.

Mae'r broses hunanarfarnu yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth briodol, gan gynnwys adolygiadau adrannol, arsylwi gwersi, craffu ar waith a barn disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r arsylwadau gwersi yn arfarnu cynnydd mewn dysgu yn ddigonol, nac yn mynd i'r afael â pha mor dda y mae addysgu'n bodloni anghenion pob disgybl, yn enwedig rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae hunanarfarniadau adrannol yn dilyn fformat cyffredin ac mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ddealltwriaeth glir o berfformiad disgyblion yn eu meysydd pwnc. Maent yn amlygu meysydd allweddol i'w datblygu ac yn cytuno ar dargedau addas ar gyfer gwella. Lle mae hyn yn digwydd, mae cysylltiad clir rhwng arfarnu a chynllunio ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Nid yw rhai arfarniadau a chynlluniau datblygu adrannol yn cydnabod meysydd i'w datblygu yn dda, neu'n amlygu strategaethau effeithiol i gefnogi unrhyw welliant.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn amlygu blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella ar draws yr ysgol. Mae'n cynnwys targedau clir ar gyfer gwella ac yn amlygu'n dda strategaethau i gefnogi'r gwelliannau hynny. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith hyn yn llawn ar addysgu a dysgu a chodi safonau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae cysylltiadau bugeiliol a chwricwlaidd ag ysgolion cynradd partner wedi eu datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn trosglwyddo o ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn integreiddio'n dda yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn wedi cyfrannu at weithredu'r cwrs 'Meddwl Mlaen' ym Mlwyddyn 7, sef cwrs thematig sy'n darparu parhad o gyfnod allweddol 2. Caiff cyfarfodydd partneriaeth defnyddiol eu cynnal yn rheolaidd i gymedroli a sicrhau ansawdd gwaith disgyblion a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â nifer o asiantaethau allanol i gefnogi safonau a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau effeithiol ag ysgolion a'r coleg lleol yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar ystod ehangach o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol. Caiff y trefniadau hyn eu cefnogi gan brotocolau cytûn a phrosesau cyffredin i olrhain cynnydd disgyblion a sicrhau ansawdd gwersi.

Mae ystod o bartneriaethau effeithiol yn bodoli ag asiantaethau cymorth arbenigol, gan gynnwys iaith a lleferydd, ffisiotherapi a chyngor arbenigol ar yrfaedd, sy'n sicrhau y caiff anghenion disgyblion ag anghenion addysgol arbennig eu bodloni mewn modd cynlluniedig a chydlynus.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â'r gymuned leol i rannu ei hadnoddau a'i hamwynderau â sefydliadau fel yr eglwys leol a grwpiau cymunedol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau sefydledig â sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Mae'r ysgol yn sicrhau perthynas foddhaol â rhieni. Mae llawer o rieni yn bresennol yn nigwyddiadau'r ysgol ac mae'r ysgol yn ymateb yn gyflym i bryderon unigol sy'n cael eu codi ganddynt. Gofynnodd yr ysgol i rieni ymateb i arolwg boddhad cyffredinol yn 2013, ond nid yw'n gofyn am farn rhieni ar ystod o faterion yn rheolaidd.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm. Ychydig iawn o'r staff sy'n addysgu y tu allan i'r prif feysydd pwnc. Caiff y rhai sy'n gwneud hynny gymorth addas. Caiff trefniadau rheoli perfformiad eu defnyddio'n briodol i nodi anghenion datblygu staff. Mae ystod addas o weithgorau sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu. Mae athrawon y nodwyd eu bod yn tanberfformio wedi cael cymorth addas gan rwydweithiau o gydweithwyr y tu mewn a thu allan i'r ysgol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu.

Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda i fodloni anghenion disgyblion. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cael budd o raglenni hyfforddi addas.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i fynd i'r afael â diffyg sylweddol yn ei chyllideb, ac mae trefniadau trylwyr ar waith i sicrhau y caiff gwariant ei fonitro'n ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio ei chyllid yn effeithiol i sicrhau bod y safle cyfan yn amgylchedd dysgu deniadol a chanddo adnoddau da.

O ystyried y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd ar i fyny o welliant er 2010. Yn 2013, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd uwchlaw'r disgwyliadau wedi'u modelu. Fodd bynnag, ym mhob dangosydd allweddol, mae perfformiad ymhlith yr isaf yn y teulu o ysgolion tebyg o hyd. Yn y dangosydd pwnc craidd, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 5 ac uwch wedi rhoi'r ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim am y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi gollwng yr ysgol o'r hanner uchaf o ysgolion tebyg yn 2011 i'r chwarter isaf yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Ar lefel 6 ac uwch, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi rhoi'r ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol o'r cyfnod allweddol blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod y tair blynedd hyd 2011, roedd tuedd o welliant mewn perfformiad. Roedd yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol ac yn gwella ar gyfradd well na chyfartaledd y teulu. Yn 2011, roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd, yn rhoi'r ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2012, disgynnodd perfformiad ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu, gan roi'r ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mhob dangosydd bron.

Bu mân welliant mewn perfformiad ym mron pob dangosydd yn 2013. Cododd lefel y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol yr ysgol i'r hanner uchaf o ysgolion tebyg yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, ond arhosodd yr ysgol yn yr hanner isaf ar gyfer dangosyddion allweddol eraill. Ym mron pob dangosydd, roedd perfformiad yn 2013 islaw cyfartaledd y teulu o hyd. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio ychydig yn is na'r disgwyliadau wedi'u modelu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni trothwy lefel 1. Mae llawer ohonynt yn cyflawni trothwy lefel 2, ond nid yw tua hanner ohonynt yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg. Mae perfformiad yn y dangosyddion hyn wedi rhoi'r ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad disgyblion mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf wedi dirywio er 2011. Yn 2013, enillodd llawer o'r rhai a safodd yr arholiad radd C, o leiaf, ac mae hyn ond ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r nifer sy'n sefyll yr arholiad yn isel ac mae'n anodd gwneud cymariaethau. Mae bron pob un o'r disgyblion eraill yn dilyn y cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith a chyflawnodd ddau draean ohonynt radd C, o leiaf.

Mae'r nifer sy'n gadael heb gymhwyster yn isel iawn. Yn y dangosydd hwn, mae'r ysgol yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill ac yn genedlaethol. Dros bum mlynedd, mae'r gyfran wedi lleihau ac, yn 2013, enillodd bron pob un o'r disgyblion gymwysterau ac aros mewn addysg neu hyfforddiant.

Roedd perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth yn cymharu'n dda ag eraill yn ei theulu, yn lleol ac yn genedlaethol, hyd 2011. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog a gyflawnwyd gan fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi disgyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion tebyg. Gwellodd y ganran a gyflawnodd trothwy lefel 3 rywfaint yn 2013, ac roedd yn debyg i gyfartaledd ei theulu o ysgolion ac yn lleol, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwellodd y sgôr pwyntiau cyfartalog yn 2013, ond mae islaw cyfartaledd y teulu, y cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd.

Nid yw bechgyn yn gwneud cystal na merched o ryw ychydig ym mhob dangosydd yng nghyfnod allweddol 3, ond mae'r gwahaniaeth yn debyg i ysgolion ei theulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae lefel y tanberfformiad gan fechgyn yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, yn y dangosydd pwnc craidd ac mewn Saesneg. Tanberfformiad gan fechgyn mewn Saesneg yw'r prif bryder.

Yng nghyfnod allweddol 4, bu'r bwloch rhwng perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a rhai nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim yn lleihau tan 2011, ac yn llai nag mewn ysgolion tebyg. Yn 2011, roedd y bwloch yn fwy o lawer ym mhob dangosydd. Ers hynny, bu'r bwloch yn lleihau. Yn 2012, roedd yn llai nag mewn ysgolion tebyg ym mron pob dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Arhosodd y bwloch tua'r un lefel yn 2013. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwloch yn fwy ac nid oes unrhyw duedd gyffredinol o leihau na chynyddu.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	506	207	293	6	0	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		41%	58%	1%	0%	
		43%	53%	4%	1%	
The school deals well with any bullying	509	149	339	19	2	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		29%	67%	4%	0%	
		26%	58%	14%	3%	
I have someone to talk to if I am worried	507	203	262	41	1	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni.
		40%	52%	8%	0%	
		38%	53%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	510	146	298	59	7	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		29%	58%	12%	1%	
		23%	57%	17%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	506	221	242	42	1	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		44%	48%	8%	0%	
		45%	45%	8%	1%	
I am doing well at school	507	186	289	32	0	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		37%	57%	6%	0%	
		32%	62%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	509	206	295	8	0	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		40%	58%	2%	0%	
		38%	55%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	509	130	298	75	6	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		26%	59%	15%	1%	
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	507	257	220	30	0	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		51%	43%	6%	0%	
		45%	47%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	507	78	354	75	0	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		15%	70%	15%	0%	
		10%	57%	27%	6%	
Staff treat all pupils fairly and with respect	506	179	299	24	4	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
		35%	59%	5%	1%	
		28%	51%	17%	4%	

		Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
The school listens to our views and makes changes we suggest	504		91 18%	323 64%	84 17%	6 1%	Mae'r ysgol yn gwranddo ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
			16%	54%	25%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	508		178 35%	284 56%	44 9%	2 0%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosod fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
			34%	60%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	503		161 32%	299 59%	41 8%	2 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
			36%	54%	8%	1%	
The staff respect me and my background	505		215 43%	278 55%	11 2%	1 0%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
			37%	54%	7%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	507		218 43%	267 53%	22 4%	0 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
			35%	56%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	243		101 42%	114 47%	25 10%	3 1%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
			28%	52%	15%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	75		17 23%	46 61%	12 16%	0 0%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
			27%	50%	16%	7%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	50	15	23	6	3	3	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		30%	46%	12%	6%		
My child likes this school.	50	18	24	6	1	1	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		36%	48%	12%	2%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	50	21	24	1	2	2	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		42%	48%	2%	4%		
My child is making good progress at school.	49	17	25	5	2	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		35%	51%	10%	4%		
Pupils behave well in school.	50	9	17	12	3	9	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		18%	34%	24%	6%		
Teaching is good.	49	14	22	5	2	6	Mae'r addysgu yn dda.
		29%	45%	10%	4%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	49	16	26	2	2	3	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		33%	53%	4%	4%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	49	10	23	8	5	3	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		20%	47%	16%	10%		
Staff treat all children fairly and with respect.	50	14	22	5	3	6	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		28%	44%	10%	6%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	50	13	23	6	1	7	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		26%	46%	12%	2%		
My child is safe at school.	50	10	27	7	0	6	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		20%	54%	14%	0%		
My child receives appropriate additional	47	12	18	5	4	8	Mae fy mhentyn yn cael cymorth
		26%	38%	11%	9%		

		Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
support in relation to any particular individual needs'.			31%	46%	7%	2%		ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
I am kept well informed about my child's progress.	50		14 28%	26 52%	7 14%	2 4%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
			33%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	50		16 32%	20 40%	9 18%	2 4%	3	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
			41%	48%	7%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	49		9 18%	23 47%	5 10%	2 4%	10	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
			27%	51%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	50		12 24%	22 44%	6 12%	4 8%	6	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
			36%	53%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	48		10 21%	16 33%	6 12%	2 4%	14	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
			26%	46%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	50		10 20%	25 50%	7 14%	2 4%	6	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
			35%	50%	9%	2%		
The school is well run.	50		11 22%	19 38%	6 12%	5 10%	9	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
			40%	49%	5%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Sue Halliwell	Arolygydd Cofnodol
Simon Davies	Arolygydd Tîm
Huw Davies	Arolygydd Tîm
Anthony Sparks	Arolygydd Tîm
Michelle Gosney	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
James Glen Mahoney	Arolygydd Cymheiriaid
Hugh Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Allan Carter	Enwebai

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---